## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID
## 1 CHWEFROR 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Council Chamber, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 1af Chwefror, 2018

**YN BRESENNOL: David Hytch (Is-gadeirydd yn y Gadair)**
Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, a David Williams

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett a Rebecca Stark

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr Paul Johnson (yn lle Andy Dunbobbin) a David Wisinger (yn lle Martin White)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr David Healey, Sian Braun, a Dave Hughes. Mr Bernard Stuart. Uwch Reolwr Dros Dro Systemau Gwella Ysgolion

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Aelod Cabinet dros Addysg), Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) ac Ymgynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

### 39. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 40. RHAGLEN YSGOLION IACH A CHYN YSGOL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu adroddiad i ddarparu diweddariad ar y gwasanaeth a'r ffordd mae ysgolion yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd yr wybodaeth gefndir a rhoddodd adroddiad ar Gynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru (WNHSS) a Chynllun Cyn-Ysgolion Iach a Chynaliadwy (HSPSS) fel y nodir yn yr adroddiad. Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu adroddiad hefyd ar y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) a'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP). Roedd Rhaglen Waith Ysgolion Iach a Chyn-Ysgol Ebrill 2017 – Mawrth 2018 ynghlwm yn yr adroddiad.

Sylwodd y Cynghorydd Kevin Hughes ar y gostyngiad yn yr arian oedd ar gael i ysgolion a'r effaith bosibl ar iechyd a lles plant a phobl ifanc. Dywedodd yr Ymgynghorydd Dysgu y gallai diffyg arian mewn ysgolion cynradd gyfyngu ar nifer y gweithgareddau a'r arbenigedd allanol y gallai ysgolion ymwneud â nhw. Mewn ymateb i sylwadau pellach gan y Cynghorydd Hughes ynglŷn â

phwysigrwydd iechyd y geg a deiet da i blant ifanc, esboniodd yr Ymgynghorydd Dysgu fod iechyd y geg wedi'i gynnwys yn y meini prawf maethol.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cunningham y dylid llongyfarch pob ysgol yn Sir y Fflint ar eu llwyddiant i hyrwyddo Ysgolion Iach. Awgrymodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y dylid gwahodd holl Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid i'r Digwyddiad Gwobrwyo Ysgolion Iach. Cytunodd yr Ymgynghorydd Dysgu i wahodd y Pwyllgor ar ôl trefnu dyddiad.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu ragor o wybodaeth am gynnydd yr ysgolion uwchradd fel rhan o'r Cynllun Ysgolion Iach.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn y Cynlluniau Ysgolion Iach a Chyn-Ysgolion a llongyfarch yr ysgolion am y gwaith a wnaed hyd yma; a

(b) Bod yr Aelodau'n cefnogi'r ysgolion a'r cyn-ysgolion i ymgysylltu'n weithredol ym mhob cam o'r cynlluniau.

## 41. CANLYNIADAU DYSGWYR

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad i ddarparu diweddariad ar Ganlyniadau Dysgwyr yn 2017. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) yn parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod yr holl ysgolion, ac yn enwedig yr ysgolion uwchradd, yn olrhain cynnydd eu disgyblion yn gywir yn erbyn targedau a gyhoeddwyd er mwyn sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y canlyniadau a ragwelir a'r canlyniadau gwirioneddol.

Mynegodd y Cynghorydd Dave Mackie nifer o bryderon ynglŷn â chanlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a dywedodd fod dirywiad parhaus wedi bod ym mherfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn ystod y blynyddoedd diweddar. Roedd o'r farn y dylai Sir y Fflint fod yn uwch na'r 6$^{ed}$ safle yn y tablau perfformio. Ymatebodd y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) i'r sylwadau a phryderon a fynegwyd ac esboniodd mai'r 6$^{ed}$ safle oedd safle lleiaf y sir ond bod ganddynt ddyheadau uwch.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at Ganlyniadau Cyfnod Allweddol 5 - 2017, fel y nodwyd yn atodiad 2 yr adroddiad a gofynnodd a fyddai'n bosibl darparu data cymharol ar gyfer Coleg Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy a Choleg Cambria. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Prif Swyddog Dros Dro i'r sylwadau a'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Mackie ac esboniodd fod y meini prawf derbyn ar gyfer myfyrwyr Coleg Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy yn wahanol i feini prawf derbyn ysgolion uwchradd Sir y Fflint.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Geoff Collett hefyd ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 5 a gofynnodd am gynnwys gwybodaeth ynglŷn â nifer y myfyrwyr na wnaeth gwblhau eu cyrsiau a'r rhesymau pam na wnaethant, yn Adroddiadau Canlyniadau Dysgwyr y dyfodol. Cytunodd y Prif Swyddog Dros Dro y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno yn adroddiadau'r dyfodol.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Kevin Hughes ynglŷn â phresenoldeb mewn ysgolion ac absenoldeb anawdurdodedig, dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro fod Llywodraeth Cymru yn caniatáu i rieni gael hyd at 10 diwrnod o absenoldeb anawdurdodedig. Er gwaethaf ymdrechion ysgolion i annog rhieni i beidio â chymryd eu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor, a'r wybodaeth a ddarparwyd ar effaith colli diwrnod o addysg, esboniodd fod rhai rhieni yn ystyried y penderfyniad fel 'hawl'. Rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro sicrwydd fod gan ysgolion brosesau a data cadarn yn eu lle i adnabod patrymau presenoldeb a gweithdrefnau cadarn i fynd i'r afael â phroblem diffyg presenoldeb ymhlith disgyblion.

Dywedodd Mrs. Rebecca Stark y dylai ysgolion gael eu canmol am eu perfformiad yn yr hinsawdd ariannol bresennol a gofynnodd i'r neges honno gael ei rhoi i'r ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i ddarparu cymorth personol i benaethiaid a staff sydd yn y 'rheng-flaen' ac yn wynebu effeithiau'r toriadau ariannol i'r gyllideb addysg. Roedd y Prif Swyddog Dros Dro yn cydnabod bod ysgolion o dan bwysau mawr a rhoddodd ei sicrwydd fod cymorth dynodedig ar gael gan ymarferwyr iechyd meddwl a bod cymaint o gymorth â phosibl yn cael ei ddarparu.

Gofynnodd Mrs. Rebecca Stark am gynnwys gwybodaeth ynglŷn â thargedau disgwyliedig myfyrwyr a'u cyrhaeddiad gwirioneddol yn adroddiadau'r dyfodol. Cytunodd y Prif Swyddog Dros Dro edrych ar hyn ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Kevin Hughes y dylai ysgolion gael eu llongyfarch am eu gwaith gwych a'r cyfleoedd a ddarparwyd i ddisgyblion drwy gynllun Bagloriaeth Cymru.

Yn dilyn cwestiynau ynglŷn â'r cymhorthdal cludiant i Goleg Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy, cytunodd y Prif Swyddog Dros Dro y byddai'n gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth pa fecanwaith ariannu oedd yn ei le ar gyfer myfyrwyr o Loegr a oedd yn mynychu Coleg Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy.

Gofynnodd yr Aelodau rhagor o gwestiynau ynglŷn â thargedau a chanlyniadau disgwyliedig disgyblion, a'r llwybrau galwedigaethol oedd ar gael i fyfyrwyr a oedd yn dymuno mynd ymlaen i addysg uwch ond nad oeddynt yn ennill y cymwysterau mynediad ar gyfer llwybr academaidd. Mewn ymateb i'r sylwadau a phryderon a godwyd rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Prif Swyddog Dros Dro ymrwymiad i ddarparu gweithdy ar bob agwedd ar addysg ôl-16 oed ar draws Sir y Fflint.

Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn cefnogi ac yn cymeradwyo gwaith ysgolion uwchradd Sir y Fflint i gynorthwyo pobl ifanc i wireddu eu potensial a chytunodd yr aelodau.

**CYTUNWYD:**

(a) Y dylid nodi'r adroddiad a'r data cyrhaeddiad sydd wedi'u dilysu ar gyfer plant a phobl ifanc Sir y Fflint yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 ar gyfer y flwyddyn 2016-17; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi ac yn cymeradwyo gwaith ysgolion uwchradd Sir y Fflint i gynorthwyo pobl ifanc i wireddu eu potensial.

## 42. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol er mwyn i'r Pwyllgor ei hystyried. Dywedodd y byddai Adroddiad Monitro Gwelliant y 3ydd Chwarter yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 12 Ebrill 2018. Dywedodd yr Hwylusydd hefyd y byddai'r ddwy eitem a ganlyn yn cael eu hychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol, ac y byddai'r adroddiadau'n cael eu cyflwyno pan fyddai'n briodol:-

- Canlyniad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion; a
- Diweddariad ar y Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol

**CYTUNWYD**:

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i gael ei diwygio;

(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd fel y bo'r angen; a

## 43. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 pm a daeth i ben am 4.50 pm)

..................................................

**Cadeirydd**